**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-590
Ein cyf/Our ref EH/05286/14

William Powell AC
Cadeirydd Pwyllgor Deisebau

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

13 Hydref 2014

Annwyl William,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 30 Medi ynghylch y ddeiseb ar wasanaeth bws y Cardi Bach.

Yn y cyfarfod llawn ar 17 Medi, cytunais y byddwn yn hysbysu Aelodau am y sefyllfa, unwaith y byddai Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud y trefniadau contractyddol angenrheidiol ar gyfer gwasanaeth i gymryd lle'r Cardi Bach. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad â swyddogion y Cyngor am hyn ac fe gewch chi wybod pan gaf innau wybod.

Rwy'n gwerthfawrogi pwysigrwydd cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da i gefnogi twristiaeth gynaliadwy ar hyd arfordir Bae Ceredigion. Rwyf wedi neilltuo arian i Gyngor Sir Ceredigion i wella'r gwasanaeth bws TrawsCymru T5 / X50 a fydd yn cysylltu Aberystwyth ag Aberteifi trwy Geinewydd. Rwyf hefyd newydd gymeradwyo arian i ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd ychwanegol i Abergwaun a ddechreuodd yn yr haf yn ogystal â gwasanaeth gwell ar Lein y Cambrian a fydd yn dechrau flwyddyn nesaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*